## Cwestiynau Ymgynghori

| **Cyfrinachedd** |
| --- |
| Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br>Os nad ydych am inni ddangos eich enw a'ch cyfeiriad ar unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu paratoi, ticiwch yma<br><br>Os nad ydych am inni ddangos eich ymateb ar unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu paratoi, ticiwch yma |

Cwestiynau am ddemograffeg:

| | | |
| --- | --- | --- |
| **Enw** | Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig (CDMC) | |
| **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?** | Sefydliad | |
| **Ai yng Nghymru y mae'ch cartref chi neu gartref eich sefydliad?** | Ie | x |
| | Na, ond dw i neu fy sefydliad yn gweithio yng Nghymru | |
| | Na - a dydyn ni ddim yn gweithio yng Nghymru | |
| **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?** | Ydw | |
| | Na | |
| **Hanner cyntaf y cod post (4 digid)** | | |

| | | |
| --- | --- | --- |
| **Nodwch ba un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi neu eich sefydliad orau (dewiswch un yn unig)** | Amaeth | x |
| | Coedwigaeth | |
| | Yr Amgylchedd | |
| | Milfeddygol | |
| | Twristiaeth/Lletygarwch | |
| | Cadwyni cyflenwi bwyd a phren | |
| | Y Sector Cyhoeddus | |
| | Sector Preifat | |
| | Trydydd Sector | |
| | Undeb Llafur/Cynrychiolydd | |
| | Ymchwil/Academia | |
| | Arall (Cymunedau ag Economi Cefn Gwlad) | x |

| | | |
| --- | --- | --- |
| | Defaid | x |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych chi wedi dweud eich bod yn ffermwr nodwch eich prif weithgarwch ffermio (dewiswch un yn unig).** | Bîff | |
| | Llaeth | |
| | Âr | |
| | Garddwriaeth | |
| | Dofednod | |
| | Cymysg | |
| | Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ar hyn o bryd a oes gennych chi hawliau i bori tir comin?** | Oes | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n ffermwr tenant?** | Ydw | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n derbyn BPS?** | Ydw | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, beth yw'ch oed?** | O dan 18 oed | |
| | 18-34 | |
| | 35-49 | |
| | 50-64 | |
| | 65+ | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd?** | Ydw | |
| | Na, ond dw i wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y gorffennol | |
| | Na, dw i erioed wedi cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol. | |

## Fframwaith

C1. Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?

Mae cyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG)a amlinellir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn dibynnu bron yn llwyr ar bob ffermwr gweithredol yng Nghrymu'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Un o safbwyntiau RhTG yw i '"gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion y genhedlaeth Heddiw a'n hymrwymiadau i genedlaethau yfory" credwn yn gryf iawn nad yw'r cynllun newydd hwn yn gwneud hyn. Mae'r cynllun am ddileu oddeutu pump mil o swyddi yn nghefn gwlad Cymru ac felly yn amddifadu plant o ffordd o fyw amaethyddol yn y dyfodol.

Mae'n galonogol gweld bod cynhyrchu bwyd yn cael ei nodi fel un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Byddai CDMC yn argymell er mwyn dod yn fwy diogel o ran bwyd fel cenedl, ar lefel Cymru a'r DU, bod yn rhaid inni ddefnyddio'r cynnyrch a dyfir ar garreg ein drws, gan ddarparu cymorth a deddfwriaeth sy'n diogelu ac yn darparu cyfleoedd i'n cynhyrchwyr sylfaenol yng Nghymru. Mae CDMC yn falch o'r cynnych Cymreig caiff ei gynhyrchu gan ein haelodau er weithiau nid yw'r pris am wyn mynydd yn adlewyrchu'r hyn a ddylid bod. Mae'r cynnyrch yn fyd-enwog am safonau amgylcheddol, lles ac iechyd uchel gyda nifer enfawr o'r safonau hyn wedi'u gwreiddio yn y gyfraith, a chefnogwn i hwn fod wrth galon unrhyw bolisi bwyd, masnach, iechyd ac amgylcheddol yn y dyfodol. Mae Cymru'n enwog am hinsawdd a thopograffeg sy'n addas ar gyfer tyfu glaswellt ac mae angen cefnogi mentrau da byw sy'n seiliedig ar gynhyrchu oddi ar borfa naturiol. Anogwn i Lywodraeth Cymru edrych ar adroddiadau carbon ffermydd mynydd i weld ein bod yn cynhyrchu cig oen net sero / carbon isel yn barod. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ymdrechu i roi amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd yn gyntaf mewn unrhyw gynllun neu gynnig polisi yn y dyfodol. Mae rheoli tir mynyddig yn gynaliadwy yn mynd law yn llaw gyda chynhyrchu bwyd o safon uchel o ran cig sy'n uchel mewn mwynau a fitaminau naturiol. Mae ffigyrau o adroddiad ADAS (rhag 2023) yn hynod frawychus i ni fel cymdeithas. Mae'r cynllun yn cynnig lleihau unedau da byw o 122,000 sydd bron yn gyfwerth a 1 miliwn o ddefaid. Byddai hyn yn cael effaith mawr ar y farchnad a chefn gwlad ac ar ein tirlun. Rhaid i ni beidio meddwl bod modd mewnforio cig yn well nai gynhyrchu ein hunain. Yn yr un modd er enghraifft os daw gostyngiad o 45,1000 yn nifer y gwartheg godro yng Nghymru yn yr 122k uned da-byw byddai hyn yn ostyngiad o 360milliwn litr o lefrith yn flynyddol. Mae adroddiad ADAS hefyd yn cyfeirio at ostyngiad o 31,300 o unedau da byw ar ffermydd defaid arbenigol 'Specialist sheep' yn unig. Gan fod un uned dda byw yn meddwl 7 dafad, dyna golled o 220,000 o famogiad neu 330,000 o wyn tew (1.5 oen y ddafad ar gyfartaledd rhwng fferm fynydd a llawr gwlad). Mae'n rhesymol casglu drwy gyfrif defaid fydd ar ffermydd eraill yng Nghymru (Mixed Grazing a Lowland Grazing) y byddwn yn gwynebu gostyngiad o 500,000 o wyn tew yng Nghymru'n flynyddol. Fe fyddai hynny'n golled enfawr i'n ffermwyr ond hefyd yn drychineb i'r gadwyn fwyd, yn ddigon i danseilio dyfodol mwy nag un lladd-dy gan ychwanegu at y 5,000 o swyddi sydd dan fygythiad gan y cynigion yma. Fe fydda'i rhaid cario wyn tew filltiroedd ymhellach i ladd-dai gan ychwanegu at ôl troed Carbon.

Mae CDMC yn hoff o weld ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, fodd bynnag mae'n hollbwysig i gydnabod buddion cynefinoedd megis, glaswelltir, porfa gymysg a chnydau eraill wrth fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd. Mae ardaloedd ffermio ac amaethyddol yn dapestri o gynefinoedd, a rhaid cydnabod bod yr ecosystemau unigryw hyn wedi'u creu o weithgareddau cynhyrchu bwyd, mae 44% o ddefaid magu'r DU yn perthyn i'r ucheldir, gyda hyd at 75% yng Nghymru. Mae diwydiant amaeth defaid yn seiliedig ar y ddafad fynydd ac mae'n bwysig i'w cadw felly. Mae'r ardaloedd mynyddig hyn yn dibynnu ar ffermio, chynhyrchu bwyd neu gyflenwi stoc bridio fel prif weithgaredd economaidd. Mae CDMC

yn hyrwyddo pwysigrwydd cynnal yr ardaloedd hyn nid yn unig fel potiau mêl ar gyfer bioamrywiaeth ond hefyd i gydnabod y rhan annatod y maent yn ei chwarae yn system cynhyrchu bwyd y DU wrth sicrhau bod Cymru mor gynaliadwy ag y gall fod yn ogystal a darparu buddiannau i'r nwyddau cyhoeddus.

Bydd yn gwbl hanfodol bod unrhyw gamau sy'n ymwneud â gwella mynediad i gefn gwlad yn cyd-fynd â chamau gweithredu sylweddol i sicrhau bod y rhai sy'n cynnal niferoedd cynyddol o ymwelwyr yn cael digon o gefnogaeth. Gall troseddau gwledig e.e ymosodiadau gan gŵn, aflonyddu tir, gwrth-darro gan ymwelwr fod yn faich a'r busnes yn ariannol ac yn feddyliol ac ni ellir anwybyddu hyn.  Dylid ystyried hefyd yr effaith ar dir cynefin a bioamrywiaeth os yw mynediad cyhoeddus yn tarfu arnynt. Nid oes unman yn amlinelliad y cynllun sy'n cydnabod y baich hwn nac unrhyw gamau a fydd yn helpu'r rhai sy'n cael trafferth mewn cymunedau gwledig, mae gan ffermio eisoes ganran sylweddol uwch o hunanladdiadau a marwolaethau llawer uwch na llawer o sectorau eraill, ac i gynyddu'r baich hwn ar fusnesau - sydd fel arfer yn bobl unigol ac yn deuluoedd ffermio yng Nghymru - yn arbennig o anghyfrifol i Lywodraeth Cymru. Rhaid gofyn y cwestiwn - oes angen mwy o fynediad i gefn gwlad? Ydy'r cyhoedd yn galw am hyn?! Cred CDMC fod digon o gyfleoedd mynediad ar gael yn bresennol yn enwedig yn yr ucheldir heb yr angen i greu mwy. Mae CDMC yn cefnogi cyfleodd ar gyfer gwella mynediad presennol e.e gwaith clirio llwybrau neu uwchraddio dodrefn.

Mae'n peri gofid i ni nad yw'r cynllun wedi gwneud y cysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn yr ucheldir gyda'r manteision o hyn yn naturiol i lefelau carbon ac i nwyddau cyhoeddus.

Mae CDMC yn cefnogi'r adborth o ymgynghoriadau blaenorol gan gynnwys

- Yn wahanol i'r cynigion presennol ar gyfer Gweithredoedd Sylfaenol, awgrymodd ymatebwyr gyflwyno dulliau gweithredu fesul cam sydd â llwybrau syml i'r Cynllun, gan wneud yn siŵr ei fod yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn galluogi pob fferm i ymgysylltu a gwneud yn siŵr bod yr ystod eang o ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) yn cael eu cefnogi'n eang. Erbyn hyn, credwn fod y gweithredoedd sylfaenol wedi mynd yn rhy bell. Nid yw'n ymarferol i neilltuo 10% o'r fferm i coed a 10% i gynefin. Mae nifer o'r gweithredoedd sylfaenol bellach yn golygu llawer o waith papur fydd mwyaf tebyg yn cael ei wneud gan ymgynghoryddïon preifat.
- Teimlai'r ymatebwyr fod angen i'r Cynllun fod yn hyblyg fel y gellir ei deilwra i gryfderau pob fferm neu ardal heb eu cosbi/cau allan os oeddynt yn methu ymrwymo i rai o'r gweithredoedd sylfaenol.
- Mae angen bod yn glir i ffermwyr sut mae camau gweithredu'r Cynllun yn cefnogi'r gwaith o ddarparu RhTG, gan gynnwys trwy gynhyrchu bwyd.
- Roedd cefnogaeth i'r lleiafswm o fiwrocratiaeth gyda symleiddio, lle bynnag y bo modd, a thema ganolog – ac rydym yn ei gefnogi.

Mae cyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a amlinellir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn dibynnu bron yn llwyr ar bob ffermwr gweithredol yng Nghymru'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Credwn gall gryfhau RhTG drwy addasu'r cynllun hwn. Rydym ni fel ffermwyr eisiau ac yn gwarchod yr amgylchedd. Rydym eisiau lliniaru newid yn yr hinsawdd ond does dim llawer o sylw at ddatblygu ffermydd I gynhyrchu egni adnewyddadwy yn y cynllun hwn.

Rhaid cael gwell cydnabyddiaeth a buddsoddiad yng ngwerth glaswelltir, systemau da byw wedi'u pori, glaswellt cymysg a chnydau gorchudd, er budd y pridd, ecosystemau, bioamrywiaeth a dal carbon, tuag at y canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Mae cynaliadwyedd a naturioldeb amaethyddiaeth Cymru yn enwog ar draws y byd ac yn awr yn gyfle gwirioneddol i greu cynllun sy'n hyrwyddo ac yn dathlu cynhyrchu bwyd yng Nghymru fel ffocws yn hytrach nag fel sgil-gynnyrch.

**Gweithredoedd Cyffredinol**

C2. Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm er lles bioamrywiaeth.
a) Beth yw eich barn am y gofynion hyn?
b) Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal?

A.)Nid yw CDMC yn cefnogi'r Gweithrediad Mae adroddiadau wedi dangos bod glaswelltir llawn cystal os nad gwell na coed am storio carbon. Mae modd ffermio Net Zero yng Ngymru ac mae ffermydd wedi profi hyn gyda chymorth gan Gyswllt Ffermio, Castellior Sir Fôn yn enghraifft amlwg o hyn. Gall ffermio'n gynaliadwy yng Nghymru ddod â buddion enfawr i'r hinsawdd a'r amgylchedd naturiol, ac i economïau a chymunedau lleol os caiff ei fesur a buddsoddi'n gywir ynddo. Nid yw'r atebion yn gorwedd o fewn targedau plannu coed yn unig a gall plannu coed sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n wael gael effeithiau negyddol iawn ar garbon, natur (e.e erydiad pridd), a chymunedau gwledig (e.e newid i dirlun, colli cynefin). Rhaid i unrhyw dargedau, canlyniadau a chamau gweithredu y cytunir arnynt roi ystyriaeth i'r bobl a'r busnesau a fydd yn eu cyflawni, yn aml ffermwyr fel rheolwyr tir sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni canlyniadau o'r fath a dylid ymgynghori â nhw i sicrhau bod y dulliau cyflawni gorau yn eu lle heb rwystro cynhyrchu bwyd.

Er enghraifft, mae'n afresymol disgwyl i denant gyflawni 10% o orchudd coetir os yw ei gytundeb tenantiaeth yn atal plannu neu os yw'r tirfeddiannwr yn gwrthod rhoi caniatâd i blannu mwy o goed. Erbyn hyn gwelwn fod denantiaid yn gallu cael ei eithrio o'r ymrwymiad hynny sydd bellach yn creu anffafriaeth dros ffermwr sydd yn berchennog o'i dir. Yn yr un modd ffermydd sydd ynghlwm i reoliadau CNC sy'n ei gwneud yn amhosibl plannu neu dir gwerth uchel, tir mawnog neu dir wedi ei ddynodi. Byddai llawer o ffermydd mynydd sydd ag ardaloedd bach o dir wedi ei wella ond sydd yn cadw ardaloedd eang o dir pori a/neu dir comin hefyd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd unrhyw le yn agos at y 10% o orchudd coed, ac yn wir efallai na fydd coed yn goroesi nac yn arwain at unrhyw werth o'u plannu ar y math yma o dir (ac felly yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ar dirlun). Ar y ffermydd hyn, glaswelltir yw'r cnwd mwyaf dibynadwy a gwydn, gyda llu o ganlyniadau buddiol e.e cynhyrchu cig carbon isel. Anogwn Llywodraeth Cymru i edrych ar y ffeithiau sy'n dangos gallu glaswelltir i storio carbon.

Cred CDMC fod coedydd Derw /Bedw o werth cadwraeth uwch yng Nghymru na choedwigoedd o gymysgeddau rhywogaethau eraill. Maent yn fwy tebygol ymhen amser o gynnwys rhywogaethau ar restrau data ambr a choch. Rydym felly o'r farn, lle bo hynny'n briodol o ran pridd a hinsawdd, y gellid gostwng y targed o 10% ar fferm pe bai Derw a Bedw yn cael ei blannu.

Fel y soniwyd yn flaenorol, bydd cryn bryder ymhlith tenantiaid a ffermwyr sydd â chytundebau 5 mlynedd a chytundebau tymor byr o ran cyflawni'r yswiriant o 10% yn enwedig o ystyried rheolaeth reoli a thir sydd wedi'i gynnwys mewn cytundebau. Byddai'n hunan-niweidiol i amcanion LlC pe na bai'r ffermwyr hyn yn cael ymuno â'r cynllun dim ond oherwydd na allent gydymffurfio â'r cam gweithredu cyffredinol hwn.

Mae CDMC yn bendant bod yn rhaid i unrhyw darged ar gyfer coetir ar ffermydd gynnwys gwrychoedd yn gyfan gwbl. Rhaid i unrhyw darged hefyd gynnwys coed unigol a gorchudd coed sydd eisoes wedi'i sefydlu. Rydym yn derbyn y dylai fod gofynion penodol ar reoli perthi er mwyn cynnwys perthi.

Byddai plannu llawer o goed yng nghefn gwlad Cymru yn sicr yn arwain at broblem diboblogi yr ardaloedd gwledig a'r duedd a welir o bobl ifanc yn gadael y diwydiant amaeth.

Hoffem dderbyn mwy o fanylion am y dystiolaeth a'r penderfyniadau y tu ôl i'r targed o 10% o goed.

Rydym yn dadlau'n llwyr dros weld gwerth glaswelltir yn cael ei wireddu i fioamrywiaeth, iechyd y pridd, ac yn hanfodol atafaelu carbon. Mae ymchwil bellach yn awgrymu bod potensial enfawr i laswelltir ddal a storio carbon flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae eraill hefyd yn gweithio i ddatblygu ymchwil sy'n dangos manteision enfawr glaswelltiroedd cymysg a chnydau gorchudd wrth atafaelu carbon.

Rydym yn deall bod LlC wedi datgan mai 10% o'r tir sydd ar gael sydd angen ei blannu bellach ond ar gyfer fferm fynydd draddodiadol bydd y 10% hwn yn disgyn ar eu tir mwyaf cynhyrchiol, syn dir eithaf prin. Mae'n rhaid i LlC ailystyried.

Rydym yn yn poeni am effaith gweledol plannu'r holl goed ar dirlun Cymru.

B.)Nid ydym yn cytuno gyda'r gwerthed sylfaenol hwn. Byddai angen llawer o gymorth. Rydym yn gwybod nad oes digon o stoc o goed yng Nghymru ar gyfer cyrraedd y gofyn hwn. Byddai hefyd angen sicrhau fod y coed sydd yn cael eu plannu yn addas i'r ardal ple mae nhw'n cael eu plannu. **Credwn yn gryf mai gweithred opsiynol ddylai hwn fod**.

C.3 Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a cynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:
a) O fantais i fusnes eich fferm?
b) Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol
yn talu amdanyn nhw?

Mae'n bosibl bod llawer o ffermydd nad ydynt yn gallu bodloni'r Camau Gweithredu Sylfaenol (e.e 10% o goed) eisoes yn cymryd camau opsiynol megis profi pridd, archwiliadau carbon, pori cylchdro a chymysg, cynnal glaswelltir cymysg a chnydau gorchudd, a byddai'n gam negyddol iawn i osod rhwystrau ar waith i'r ffermydd hyn i fynd fewn i'r cynllun yn lle cyntaf.

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd gydnabod yr holl amser ac ymdrech sy'n gysylltiedig â'r Gweithredoedd Sylfaenol a chydymffurfio â gofynion y cynllun. Mi fydd hon yn ffactor bwysig wrth i ffermwyr ystyried a yw ymuno â'r SFS yn benderfyniad ariannol ymarferol i'w busnes. Rhaid ystyried pa mor ymarferol a pherthnasol yw'r Gweithredoedd Sylfaenol arfaethedig.

Mae'n anodd iawn trafod hyn heb wybod beth yw swm cyllid sydd ar gael.

A.)Fel cymdeithas rydym yn cytuno byddai RHAI o weithredoedd sylfaenol o fantais i fusnes y fferm serch hyn, rydym yn bryderus bod y gweithredoedd sylfaenol yn golygu bod rhaid cael ymgynghorydd preifat i'w cwblhau ac felly ni fydd yn werth am arian nac yn cael yr effaith mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y byddai'n cael. Mae'n debyg mai 'paper exercise' fydd nifer ohonynt. Mae CDMC yn credu dylid cael swyddog o fewn Llywodraeth Cymru / Cyswllt Ffermio sy'n darparu cymorth yn rhad ac am ddim i gynorthwyo ffermwyr i wneud y gwaith papur ac hefyd felly denu ymrwymiad a diddordeb y ffermwyr i'r wybodaeth sy'n cael ei gynhyrchu.

GS 1 - UA1: Meincnodi – Cytuno byddai o fydd i ffermydd i feincnodi ond fe ddylai LlC ddarparu math o dempled ar ei gyfer. Dylid defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel canllaw ond nid pennu llwyddiant busnes, mae byd o wahaniaeth rhwng diadell iseldir dwys a diadell fynydd nid yn unig o ran allbwn ond dyddiau i ladd, cyfraddau twf, canran sganio a chostau

mewnbwn a'r mae gan yr amrywiaeth a welir ar ffermydd Cymru a geneteg defaid berthynas agos a chysylltiedig â rheolaeth y dirwedd a'r ecoleg gysylltiedig. Fodd bynnag, byddai cynnwys Cyswllt Ffermio i ddehongli'r hunanasesiad ar gyfer DPAau priodol yn allweddol i sicrhau ei fod yn werthfawr i'r busnes.

GS 2 - UA2: Datblygiad Personol Parhaus – Rydym yn deall mai ar y we fydd hwn. Rhaid i LlC gofio bod cyswllt y we mewn ardaloedd gwledig yn sobor o sâl ac felly'n rwystr i rai. Mae CDMC eisiau tynnu sylw i'r ffaith fod angen i LlC sicrhau bod digon o amrywiaeth o fodiwlau ar gael. Deallwn fod LlC yn gweld y cynllun hwn fel un hir dymor felly os yw ffermwr yn y cynllun am 5 mlynedd mae angen 30 awr o fodiwlau sy'n addas ar gyfer ei fferm.

GS 3 - Cynllunio iechyd pridd – Cytuno. Mae CDMC yn cefnogi'r camau hyn ond byddai'n awgrymu y gallai'r profion pridd ddigwydd dros gyfnod contract y cynllun, yn enwedig os byddai unrhyw gamau i unioni problemau. Byddai'r gost ar gyfer gwrteithio'r fferm gyfan yn anymarferol. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r galw ar labordai profi pridd. Yn yr un modd, hoffem weld camau gweithredu i fynd i'r afael ag argaeledd pH a P&K trwy gamau unioni a gosod calch ar briddoedd asidig - gan fod hyn yn sylfaen ar gyfer rheoli pridd a maetholion yn dda hefyd yn fuddiol i osgoi asideiddio cyrsiau dŵr. Mae Cyswllt Ffermio yn rhedeg hyn yn dda iawn ar hyn o bryd gyda ffermwr yn cael profi ychydig o gaeau ac yn cael sgwrs gydag arbenigwr - hoffem weld hyn yn parhau.

GS 4 -Cnydau gorchudd aml rywogaeth – Cytuno, hefyd yn fuddiol gweld bod hwn yn gallu cyfri tuag at 1-% o goed/cynefin. Rhaid sicrhau bod rhywogaethau cywir yn cael eu plannu yn y man cywir a bod erydiad pridd ddim am gynyddu yn y tymor byr. Mi ddylid fod yn optiwn dewisiol.

GS 5 - Rheolaeth Integredig ar Blâu – Cytuno ond mae rhaid i LlC sicrhau bod cefnogaeth gan y busnes i wneud y GS hwn megis GS1.

GS 6 - Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr. – Byddai hwn yn sicr o effeithio ar ein aelodau. Mi ddylai ffermydd sydd gyda GS6 felly ofod plannu llai o goed gan ei bod yn storio carbon yn naturiol. Bydd rhaid sicrhau fod y mapiau mawn sy'n cael eu cyflwyno gan LlC yn gywir os oes anghytuno rhaid cael ymweliad safle neu broses ymgynghori i benderfynu os oes mawn yn bresennol ar y fferm. Mae CDMC yn cefnogi camau i adfer a chynnal mawndir, gan ei fod yn ffynhonnell werthfawr o storio carbon yn ogystal â meddu ar briodweddau dal dŵr unigryw ac fel sylfaen ar gyfer ecoleg planhigion ac infertebratau penodol. Rhaid i gyfraddau talu adlewyrchu gwerth uchel y cynefinoedd hyn a'r gost a'r effaith ar y system ffermio o ail-wlychu a rhwystro gafaelion. Rhaid cydnabod hefyd y gall cerddwyr ac ymwelwyr gael effeithiau dinistriol ar y llystyfiant sy'n gysylltiedig â mawn gwlyb ac y byddant yn 'cerdded yn lletach' gan greu difrod i bridd a phlanhigion. Dylid sicrhau bod adnoddau ariannol penodol ar gael i osgoi difrod gan gerddwyr. Er bod map yn bodoli o leoliad mawndir a mawndir dwfn yn yng Nghymru credwn fod angen ymweliad safle ar rai leoliadau ar gyfer sicrhau'r mapiau.

GS 7 - Cynnal cynefinoedd – Cytuno bod angen gwarchod cynefinoedd. Mae'n rhaid i'r ffermwr allu ymgynghori gyda LlC ar gyfer lefelau stocio. Yn aml mae bywyd gwyllt yn ddibynnol ar dda-byw mewn cynefinoedd. Rhaid sicrhau fod y cynllun yn cydnabod y berthynas unigryw yma mewn rhai lleoliadau e.e Bran Goes Goch a pori trwm a bod modd sefydlu lefelau stocio pwrpasol yn seiliedig ar drafodaeth gyda asiantaethau a'r ffermwr. Nid yw'n ymarferol i rhoi 'sward height' i mewn i'r cynllun.

GS 8 - Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – Rydym yn anghytuno gyda'r dyfyniad "Yn sgil diwedd y fferm gymysg, mae cefn gwlad Cymru wedi colli'r gymysgedd o gnydau glaswelltir, âr a garddwriaethol a arferai dyfu yno ar un adeg." Rhaid i LlC ystyried goblygiadau'r cynllun hwn ar

gefn gwlad. Os bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno bydd newid mawr i gynefinoedd yn siŵr o amlygu. Cytuno gyda'r GS o greu cynefin dros dro ar rhai ffermydd. Nid i bawb.

GS 9 - : Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig. – Byddai hwn yn sicr o effeithio ar ein aelodau. Rhaid sicrhau bod gan CNC staff ar gael ar gyfer creu cynllun rheoli safle. Rhaid edrych ar y wybodaeth a dadansoddi a creu cynllun ar y cyd sy'n addas ar gyfer y safle dynodedig.

GS 10 - Pyllau dŵr parhaol a thymhorol. **Anghytuno.** Nid yw'n ymarferol i hwn fod yn weithred safonol. Mi ddylai yr opsiwn yma yn sicr fod yn opsiwn dewisol. Byddai creu pyllau ar dir angen cael eu creu yn ofalus, bydd rhai angen adroddiadau amgylcheddol. Gall rhai ddod ar gost adeiladu uchel iawn. Rhaid ystyried os oes angen trwydded echdynnu dwr gan CNC. Byddai opsiwn yma yn rwystr i lawer i fynd fewn i'r cynllun. Rhaid ei ddileu o fod yn GS.

GS 11 - Rheoli perthi/gwrychoedd- Cytuno. Mae gwrychoedd a pherthi yn gynefinoedd gwych i fywyd gwyllt ac yn gysgod i dda-byw. Rhaid i LlC gyfri rhain tuag at 10% o goed a unrhyw gyfrifiannell carbon. Rhaid hefyd i waliau cerrig sych traddodiadol gael eu cynnwys yn y 10%.

GS 12 - Cynnal a chadw coetir – Cytuno, mae coed yn gynefin pwysig ond fel sydd wedi ei nodi yn barod. Nid ydym yn cytuno bod RHAID i 10% (o'r tir sydd ar gael) o bob fferm fod yn goed. Mae'n rhaid ail ystyried hwn. Mae'n rwystr enfawr i'r cynllun.

GS 13 - Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd. Cytuno megis GS12.

GS 14 - Amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella. **Anghytuno.** Rydym ar y mynydd yn gwerthfawrogi ein hen adfaelion ond mae'r rheolau sy'n cael eu cynnwys yn y GS yn hurt. Rydym yn gweld adfaelion fel gofod cysgodol i dda-byw. Mae'n hefyd yn fannau cysgodol / llecynnau uno ar gyfer hel mynydd. Nid oes gan ffermwr unrhyw fwriad o ddinistrio adafaelion a amgylchedd hanesyddol ond mae'r rheolau yn ei gwneud yn anodd iawn i ffermwr gyd-ymffurfio gyda'r GS hwn. Hefyd, maent yn ran o hanes ac nid yw hanes yna aros. Mae ei olion yno am reswm, dangos newis mewn ffordd o fyw. Byddai cost o wella rhai o'r nodweddion hyn yn hollol an-economaidd ar gyfer busnes fferm fynydd. Credwn mai opsiwn dewisol ddylai hwn fod. Lleiafrif o ffermwyr sydd gyda ffon symudol clyfar ac yn tynnu lluniau o nodweddion hyn yn rheolaidd.

GS 15 - Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid. Cytuno. Er rhaid sicrhau nad oes dyblygu yn digwydda rhaid gallu cydnabod cynlluniau eraill mae'r fferm ynghlwm ag o megis FAWL.

GS 16 - Lles eich anifeiliaid. Cytuno bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth ond mae cynllun o'r math hwn yn hynod o nawddoglyd. Dylid fod yn opsiwn opsiynol.

GS 17 - Bioddiogelwch da ar y fferm. Cytuno bod bio-ddiogelwch yn flaenoriaeth ond rhaid dangos tystiolaeth bod angen hyn ar y fferm. Mae TB yn dod i'r meddwl yn syth, rhaid rheoli moch daear yn well os yw am gynyddu bioddiogelwch ar y fferm. Hefyd does dim pwrpas i ffermwyr gynyddu lefelau diogelwch ar y fferm pan mae cerddwyr yn gallu cerdded yn agored ar hyn ein mynyddoedd gan gludo heintiau heb yn wybod. Rhaid i LlC dangos gwybodaeth a canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol i ddangos bod cynlluniau '6 day standstill' yn cyrraedd eu pwrpas. Dylid fod yn opsiwn opsiynnol. Mae'r camau gweithredu cyffredinol ar gyfer yr adran hon yn uchelgeisiol ond yn brin o fanylion. Er enghraifft, er nad yw'n glir beth fydd ei angen ar gyfer 'gorsaf olchi' a yw'n ymarferol i bob fferm gael gorsafoedd golchi dynodedig? Mae'r CDMC yn awyddus i weld rhagor o fanylion yn gyffredinol am y camau gweithredu ond byddent yn awgrymu y dylai'r gallu i lanhau a diheintio a manteision gwneud hynny gael mwy o bwysau. Byddai cwestiynau'n cael eu gofyn i ba raddau y cymerir hyn er enghraifft a oes disgwyl i bob cerbyd e.e., postmon, ddiheintio. Beth fyddai effaith yr holl gemegau diheintio ar yr amgylchedd?

Bydd cemegau felly o bosib yn troi yn gost ychwanegol i ffermwr fydd angen ei efelychu yn y taliad sylfaenol.
Gall fod yn anodd iawn cyflawni'r cam gweithredu hwn ar gyfer ffermwr bach sy'n rhentu llawer o dir? A fyddai felly disgwyl iddo gael sawl man golchi?

B.) Credwn fod llawer o waith mae'n rhaid i'r ffermwr ei wneud ar gyfer mynd mewn i'r cynllun. Deallwn mai gweledigaeth LlC yw i fusnesau edrych ar ei hun a dod yn fwy hunangynhaliol. Rydym yn cytuno gyda hyn- ond mae'n sefyllfa anodd a rhaid i LlC adolygu'r cynllun hwn a gweld beth allai weithio go iawn ym myd amaethyddiaeth. Does dim pwrpas gwneud yr holl waith papur ychwanegol os nad yw'n cael ei weithredu ar y ddaear.

C4. Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?
Ydy, credwn ei fod yn syniad da i ni fod yn gwneud ychydig o'r gweithredoedd sylfaenol hyn ar gyfer edrych ar ein fferm, datblygu a dadansoddi ein busnesau a dod yn fwy hunangynhaliol os yw'n bosib. Er hyn, bydd yn newid ac yn newydd i nifer o ffermydd felly credwn fod angen i LlC feddwn am hyn. Rhaid i LlC ddarparu templedi / swyddogion fydd ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad gyda'r gwaith papur. Nid oed pwrpas gwneud y GS a'u bod wedyn yn eistedd ar y silff. Dylid efallai meddwl am syniadau lle - os yw'r gwaith papur yn dangos bod fferm yn net sero yna dylid derbyn hyn heb orfod gwneud GS eraill e.e 10% o goed. Mae'n bwysig i'r ffermwr weld gwerth o wneud yr adroddiadau a'u bod yn syml.

Rhaid dangos hefyd sut bydd y data hyn yn cael ei gadw a'i rhannu a'i ddefnyddio gan LlC

C5. Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?
Mae'n anodd iawn i ni roi barn ar y mater hwn heb wybod beth yw swm yr arian yr ydym yn ei drafod.

**Sut bydd y Cynllun yn cael ei redeg**

C6. Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?

Ydy, rhaid sicrhau ein bod yn helpu'r ffermwr bach sydd yn rhentu tir. Rhaid i LlC hefyd sicrhau ei bod yn rhoi'r arian i'r 'Ffermwr Actif' ac nid i'r tirfeddiannwr.

C7. Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?

Ydym. Mae hyn wedyn am roi darlun clir a bydd pob fferm ar yr un raddfa. Raid ymgynghori gyda'r gwybod-ysyddion ar gyfer pa gyfrifiannell carbon byddwn yn ei ddefnyddio.

C8. Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?

Ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, mae'r cynllun yn amlinellu - 'bod LlC yn cynnig y byddai'r Safonau hyn yn cael eu seilio i ddechrau ar y ddeddfwriaeth bresennol sy'n sail i ofynion traws gydymffurfio. Byddai hyn yn cynnal y gofynion cyfreithiol presennol sydd gennym eisoes." Bydd yn hanfodol adeiladu ymddiriedaeth yn y system nad yw'r safonau hyn yn *nac am* newid yn gyson.

Mae cynnyrch Cymreig eisoes yn cael ei gynhyrchu i rai o safonau uchaf y Byd ac er mwyn hyrwyddo'r rhain ymhellach, heb unrhyw iawndal marchnad, cyfle masnachu, risg o gael eu tanseilio gan fwydydd wedi'u mewnforio o safonau cynhyrchu is, neu gymhelliant ariannol digonol yn anghyfiawn, yn anymarferol ac yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth sylweddol yn y dull gweithredu neu yn Llywodraeth Cymru.

Bydd yn hanfodol i hygrededd y cynllun nad yw'r safonau hyn uwchlaw a thu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar waith. Bydd hefyd yn hanfodol sicrhau bod bwyd yn y wlad hon yn parhau i fod yn fforddiadwy, a bydd ychwanegu'r gost cyn giât y fferm yn trosi'n gost i ddefnyddwyr yn gam gwael. Roedd yn syndod ac yn siomedig iawn gweld nad oedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan o Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a hyd yma nid ydynt wedi'u cyhoeddi ar gyfer derbyn sylwadau gan rhanddeiliaid. Felly, mae'n anodd gwneud dadansoddiad gwybodus o'r hyn sy'n bodoli a'r hyn nad yw'n bodoli. Os yw'r safonau hyn i fod yn sail i'r cynllun, mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

C9. Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?

Fel y bydd LlC yn gwybod yn iawn, bydd sicrhau bod arolygwyr yn fedrus ac yn hynod hyddysg yn realiti busnes ffermio yn gwbl hanfodol. Mae angen i arolygwyr alluogi a chefnogi cyfranogwyr y cynllun yn hytrach na gweithio o fewn diwylliant o ddod o hyd i broblemau a diffyg cydymffurfio.

Rhaid i gosbau fod yn gymesur ac yn briodol. Byddai CDMC yn awgrymu bod yna ddull sy'n dechrau gyda hysbysiadau cynghori, gan symud i lefelau isel o gosb benodedig gyda system apelio yn ei lle, ac yna yn datblygu ymhellach ar gyfer trosedd ddifrifol. Dylai cosbau weithio o fewn egwyddor o leihau archwiliadau a biwrocratiaeth ar gyfer pobl nad ydynt yn droseddwyr profedig a chanolbwyntio ymdrechion ar droseddwyr risg uchel a throseddwyr hysbys. Mae'n rhaid cael proses apelio nad yw'n gostus iawn i'r busnes ffermio. Ni ddylid cael system sy'n cosbi'n ol-weithredol ar y blynyddoedd sydd wedi bod yn y cytundeb fel sydd gennym ar hyn o bryd.

Rhaid i'r broses apelio aros fel y mae fel arall byddwn yn colli'r asesiad gan banel annibynnol a bydd yn rhaid inni ddibynnu ar Lywodraeth Cymru i ganiatáu neu wadu'r apêl.

**Dull Talu**

C10. Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer:

a) taliad sylfaenol cyffredinol SFS
b) taliad sefydlogrwydd SFS

a.)Mae'n anodd iawn rhoi barn gan nad ydym yn gwybod beth yw'r swm o arian.

b.) Mae'n anodd iawn rhoi barn nad ydym yn gwybod beth yw'r swm o arian. Credwn dylid ymestyn y taliad sefydlog ar gyfer 80% ohono yn 2026 hefyd. Mae'r taliad sefydlog i fod i sefydlogi'r busnes ond heb wybod am y swm o arian rydym yn sôn amdano mae'n bosib i fferm gael ei daro yn ofnadwy yn ei thrydedd flwyddyn. Bydd naid mawr o bosib yn 2026 os nad yw'r cynllun newydd hwn yn cynnig taliad tebyg i BPS.

**Cyfnod Pontio**

C11. Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?

Rhaid i gamau opsiynol a cydweithredol gefnogi ffermio gweithredol a chynhyrchu bwyd. Bydd buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi, cymunedau gwledig, gwerth glaswelltir a newydd-ddyfodiaid yn allweddol. Rhaid hefyd peidio cymryd cynllun 'Sustainable Managment Scheme' fel sail dda ar gyfer yr agwedd gydweithredol. Roedd nifer fawr o wallau yn y cynllun hwn a ni fyddai unrhyw gynllun wedi llwyddo oni bai am gymorth gan fudiadau megis Parc Cenedlaethol Eryri i'w cefnogi ac ysgwyddo'r baich. Rydym yn gweld cyfleoedd i gyd-weithio yn enwedig mewn ardaloedd mynyddig agored ond mae'n rhaid cael cefnogaeth ychwanegol ar ffermwyr a'u cynlluniau cydweithredol.

Rydym yn credu dylai ffermwyr sydd heb ymuno gyda'r cynllun gael mynediad i ymgeisio ar opsiynau cydweithredol a opsiynol.

C12. Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?

"Cymorth ar gyfer bridiau brodorol prin y DU. Rhaid iddynt fod yn anifeiliaid pedigri cofrestredig o frîd brodorol sydd ar restr gymeradwy'r DU o fridiau brodorol mewn perygl". Mi ddylai y cynllun cydnabod brid Defaid Mynydd Cymreig a Gwartheg Duon Cymreig hefyd yn ychwanegol i'r bridiau brodorol prin. Mae bridiau brodorol yn enwog am dyfu'n araf. Credwn hefyd fod angen buddsoddi yn natblygiad y farchnad ar gyfer y cynnyrch o fridiau brodorol, megis cigoedd arbenigol a gwlân. Mae'n hanfodol bwysig fod brid 'Defaid Mynydd Cymreig-Adran Fynydd' yn cael ei gweld yn ffafriol yn y cynllun hwn gan ei bod mor bwysig i'r diwydiant defaid ac ecosystemau a chynefinoedd mynyddig. Does yr un brid arall am allu pori'n ucheldir ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei chydnabod. Mae'n rhaid sicrhau hefyd nad yw'r weithred opsiynol yn cael ei ecsbloitio. Rhaid edrych ar werth nwyddau cyhoeddus y brid ac ychwanegu hyn mewn i'r ffaith nad yw'r wyn yn gallu cael eu gwerthu yn gynt i'r farchnad megis rhai cyfandirol. Rydym yn cefnogi fod Cyswllt Ffermio am hyrwyddo bridiau brodorol.

Gall fod yn anodd iawn cyflawni'r cam gweithredu dewisol sy'n ymwneud â ffin 3 metr, y canllawiau presennol ar gyfer llawer o gynlluniau iechyd defaid (fel MV) yw dau fetr, hoffai CDMC gael mwy o fanylion am y dystiolaeth ar gyfer rhwystr ffens 3 metr. Bydd disgwyl cydweithrediad ffermwyr a chytundeb ar y cam hwn mewn rhai achosion yn hynod o anodd a bydd cynnal a chadw, perchenogaeth yn dod yn broblem sy'n codi'n gyson. Er enghraifft, os bydd un busnes yn gweithredu ac yn gosod y ffin 3 metr ar eu tir, a fydd hyn yn cyfrif fel cam gweithredu dewisol y cymdogion neu a fydd yn ffin 6 metr yn y pen draw? Pe bai'r cam 3 metr yn cael ei ddwyn ymlaen, mae'n rhaid cael taliad parhaus sylweddol yn enwedig gan y bydd yn arwain at ostyngiad yng ngwerth ased drwy dynnu tir allan o gynhyrchu. Yn yr un modd, mae ffin 3 metr wedi'i ffensio yn erbyn tir coedwigaeth gerllaw tiroedd comin yn afrealistig, er bod coedwigaeth yn aml yn cynnwys poblogaethau gwyllt. Ni chaniateir ffensio ar dir comin a byddai codi ffens 3 metr o fewn ffin coedwig yn hynod o anodd.

Er mwyn i ni ddod yn net sero byddai cael opsiwn sy'n gymorth gyda egni adnewyddadwy yn fuddiol.

Credwn fyd dylid rhoi mwy o sylwi ar gyfer 'Internet of Things' a LoRaWAN megis larymau giatiau os ydynt yn cael eu cadw'n agored ar y mynydd.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae mwy nag un gweithiwr amaethyddol yr wythnos yn y DU yn marw trwy hunanladdiad. Canfu arolwg gan y Farm Safety Foundation bod 88% o ffermwyr o dan 40 oed yn ystyried iechyd meddwl gwael fel y broblem gudd fwyaf sy'n wynebu'r diwydiant.
Rhaid i lywodraethau ledled y DU fynd i'r afael â'r endemig hwn cyn rhoi'r gymuned ffermio mewn mwy o berygl o blaid iechyd a llesiant y cyhoedd, yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth a'r opsiynau sydd ar gael i'r cyhoedd a'r opsiynau cyfyngedig iawn i ffermwyr.

Credwn fod blaenoriaeth ac angenrheidiau pawb ar gyfer cynllun opsiynol a chydweithredol yn amrywiol iawn. Mae'n anodd iawn rhoi blaenoriaeth i rhai o'r opsiynau hyn.

**BPS**

C13. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys:

a) Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau.
b) Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd.
c) Trothwyon ar gyfer capio.
d) Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau.

Nid ydym yn cytuno yn llwyr gyda'r newidiadau yr ydych yn cynnig i BPS.

a.)Os nad oes opsiwn arall yna mae cyfradd lleihau 20% yn dderbyniol.
b.)Cytuno
c.) Anodd rhoi barn. Mwy o dir yna anoddach a mwy o gostau sydd i'w ffermio.
d.)Cytuno

**Rheoliadau**

C14. Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Mae LlC wedi bod yn arloesol gyda deddfau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Serch hynny teimlwn fod LlC yn ceisio defnyddio ffermwr er mwyn cyrraedd eu amcanion a'u targedau eu hunain. Nid yw'r cynllun hwn yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion y genhedlaeth heddiw a'n hymrwymiadau i genhedlaeth yfory. Rydym yn cydnabod bod yna argyfwng ac yn cefnogi pedwar amcan RhTG ond nid ydym yn gweld mai drwy'r gweithredoedd sydd wedi eu cyflwyno yn y cynllun hwn yw'r ateb.

**Tystiolaeth**

C15. Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.

Mae'n wyddys bod £1 i ffermwr yn troi yn £9 yn yr economi wledig. Bydd lleihad mewn cymorthdaliadau amaethyddol yn cael effaith negyddol iawn ar gefn gwlad Cymru yn economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a ieithyddol. Mae nifer o adroddiadau sy'n adolygu'r cynllun hwn yn paentio darlun du iawn. Ystyriwch yn ofalus beth yw'r newidiadau hyn yr ydych yn ei arwain arno. Nid ydym yn gwrthod newid ond mae'n rhaid newid er gwell.

Mae asesiad modelu Llywodraeth Cymru ei hun o gyfraddau talu amrywiol yn awgrymu y bydd yna ostyngiad o hyd at £199 miliwn yn yr Incwm Busnes Fferm, a gostyngiad o £125 miliwn yng nghynnyrch ffermydd. Mae'n awgrymu bod 'pob fferm yn cynrychioli gostyngiad yng ngwerth net taliadau cymorth o'i gymharu â thaliadau BPS'. Mae hefyd yn proffwydo y bydd yna 122,000 yn llai o unedau da byw yng Nghymru, ac 11% yn llai o ofynion llafur ar ffermydd. Mae'r ffigurau hyn yn peri pryder mawr o ystyried eu bod yn seiliedig ar asesiad effaith Llywodraeth Cymru ei hun o'r cynllun SFS arfaethedig.

O edrych ar adroddiad gan Undeb Amaethwyr Cymru. 'Rôl Cymorth i Ffermwyr o fewn Cadwyni Cyflenwi Da Byw yng Nghymru' yn dangos senario lle mae'r cymorth uniongyrchol yn cael ei leihau 50%, byddai angen elw cynyddol fesul dafad o rhwng £18.09 (ffermydd gwartheg a defaid ucheldir) a £24.06 (ffermydd gwartheg a defaid iseldir), ynghyd ag elw cynyddol fesul buwch o rhwng £120.63 (ffermydd gwartheg a defaid ucheldir) a £160.39 (ffermydd gwartheg a defaid iseldir) i gynnal elw cyffredinol y fferm.

Byddai ffermydd gwartheg a defaid yr iseldir yn gorfod gwneud £88 yn fwy o elw fesul hectar i gynnal incwm y fferm gyda'r senario lle mae taliadau BPS yn cael eu torri 50%. Mae hyn yn codi i £176 gyda'r senario lle mae'r taliadau BPS yn cael eu diddymu'n gyfan gwbl. Byddai cost bwydydd yn ein archfarchnad yn codi'n sylweddol.

Rhaid edrych ar tabl 2a; 2b a 2c o adroddiad economaidd ADAS. I grynhoi pryderon, wrth ganolbwyntio ar tabl 2a sydd yn rhagweld gostyngiad o '122,200 Livestock Units'(LU) yn dilyn y cynllun newydd. Petai gostyngiad o 122,200 LU yn ddefaid yn unig (anhebyg), fe fyddai'n golygu gostyngiad o 977,600 o ddefaid yng Nghymru. Mae tabl 2a hefyd yn darogan gostyngiad o £125.3m mewn cynhyrchiant (output) a gostyngiad yng ngross margin amaethyddiaeth Cymru o £71.2m. ffigyrau brawychol. Mae'r ffigyrau hyn yn tanlinellu'r effeithiau ar yr economi wledig ehangach, a'r effeithiau posib ar fusnesau cefn gwlad megis milfeddygfeydd, masnachwyr amaethyddol, garejys ac ati. Mi fyddai 'na ganlyniadau clir i effeithiau o'r fath o ran cyflogaeth yng nghefn gwlad, a byddai'r rheiny'n ymestyn i'r busnesau hynny sydd ddim yn cael eu hystyried fel rhai amaethyddol o angenrheidrwydd, ond sy'n dibynnu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ffermydd ar gyfer cyfran o'u hincwm.

**Monitro a gwerthuso**

C16. Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.

Rhaid sefydlu cynllun monitro a gwerthuso ar dechrau'r cynllun. Credwn dylid gofnodi nifer o fusnesau amaethyddol sy'n bodoli yn 2024 a cymharu hyn gyda nifer o fusnesau amaethyddol yn 2034.

Mae gwerthuso a datblygu'r cynllun yn barhaus yn allweddol, ond mae parhad a chysondeb yn hanfodol. Ni fydd y cynllun hwn yn gweithio os nad yw ffermwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar eu dyddiad adnewyddu. Rhaid defnyddio unrhyw ddata gyda chaniatâd y perchennog ac ni ddylai fod yn amod o ymuno â'r cynllun. Rhaid i'r dangosyddion a thargedau gael eu cyhoeddi ar ddechrau'r cynllun.

Mae'r pedwar dull sydd wedi ei nodi yn fframwaith Monitro ac Adrodd y deddf amaethyddol yn mynd i ddangos canlyniadau a llwyddiant neu fethiannau'r cynllun.

Arall

**C17.** Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol [*y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb*] ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae NSA yn bryderus iawn yn dilyn canlyniadau'r modelu economaidd a bydd y rhagolygon y bydd cymaint o fusnesau ffermio ledled Cymru yn cael eu gwthio allan o fusnes yn sicr yn cael effeithiau trychinebus ar y Gymraeg.

Mae CDMC yn awyddus i weld Cyswllt Ffermio yn cael ei gadw a gwasanaeth cynghori drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n darparu cyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant ymarferol i fusnesau ffermio. Mae'n hanfodol bwysig bod y gwasanaeth hwn yn cynnal ac yn adeiladu ar yr arbenigedd sydd gan hyfforddwyr a hwyluswyr. Mae cyswllt ffermio yn ei ffurf bresennol yn darparu cyfrwng amhrisiadwy yn bennaf am ddim ar gyfer uwchsgilio ac addysgu, rhaid cynnal hyn.

Hoffwn hefyd weld gwerth cymunedau gwledig a'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ynghyd â gwerth ffermio i gymunedau ac economïau gwledig ond yn hanfodol mae'n rhaid cydnabod bwyd fel lles cyhoeddus. Nid yn unig am werth lefel o hunangynhaliaeth a chadwyni cyflenwi bwyd gwydn, ond hefyd gwerth ffermio Cymru i'r economi leol a chenedlaethol, bioamrywiaeth, tirwedd, a thapestri diwylliannol a chymdeithasol Cymru.

**C18.** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu [y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb] er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

I gyrraedd targed LlC o filwiwn o siaradwyr mae'n rhaid buddsoddi mewn amaethyddiaeth a chefn gwlad. Mae amaethyddiaeth yn asgwrn cefn i'r iaith.

C19. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori hon?

Mae CDMC yn awyddus i ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth Cymru, rydym yn fwy na hapus i gyfarfod a thrafod gyda staff LlC fel yr angen a rydym yn gobeithio bydd mwy o gyfle i'n aelodau a ffermwyr gael trafod y cynllun gyda chi.

Mae'n arbennig o bwysig bod cynllun y dyfodol yn cynnal y symlrwydd a'r hyblygrwydd y gofynnodd ymatebwyr blaenorol amdanynt. Byddai CDMC yn argymell bod y cynllun mor hyblyg â phosibl ac yn ystyried ymgeiswyr sy'n gallu cyflawni canran o gamau gweithredu sylfaenol yn hytrach na'r pecyn cyfan, bydd llawer o'r rhai sydd â gweithrediadau ffermio llai diogel mewn sefyllfa i gyflawni ar lawer o'r camau gweithredu dewisol eisoes er enghraifft; pori cylchdro a gwyndwn amlrywogaeth ond efallai na fydd yn gallu gweithredu newid seilwaith mawr i'r fferm. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos tenantiaid a ffermwyr ar gytundebau tymor byr ond byddai hefyd yn caniatáu ar gyfer ffermydd lle gallai newid y seilwaith olygu colli system ffermio hyfyw a chytbwys.

Mae'n rhaid I LlC gyhoeddi amserlen ar gyfer y cynllun. Er enghraifft er mwyn sefydlogrwydd byddai'n ddefnyddiol gwybod os yw LlC yn mynd i redeg y cynllun hwn am 5 / 10 neu 20 mlynedd.

Roedd yn galonogol gweld bod dyluniad y cynllun yn ceisio sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cadw ar y tir a bod cynhyrchu bwyd cynaliadwy yn agwedd allweddol yn yr ymgynghoriad diwethaf ond erbyn hyn – ni chredwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'r weledigaeth yma.

Ar gyfer trafod ymhellach hyderwn yn gryf y byddwch wedi gallu rhyddhau manylion cyllid ar gyfer y cynllun a'r hyn sydd i ddisgwyl i'r fferm ei dderbyn os byddent yn gallu ymrwymo i'r cynllun.

Afresymol fyddai trin pob fferm yn Nghymru boed fawr neu fach, boed ar dir isel neu ar dir uchel yr un ffordd. Cofiwn fod costau amaethu ar dir uchel yn llawer uwch nag mewn ardaloedd llawr gwlad a mae systemau ffermio yn wahanol.

Mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru yn credu y gall busnesau ffermio addasu i newid mor sylweddol yn ystod y 9 mis nesaf ac unwaith eto yn dangos diffyg dealltwriaeth llwyr o'r diwydiant ffermio.

Mae'n ymddangos nad yw amlinelliad arfaethedig yr SFS wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i bryderon y diwydiannau ffermio yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf a'r ymgynghoriad dilynol. Siomedig iawn.

Rydym yn pryderu bydd y dull presennol o dalu yn ffafrio'r rhai sy'n anghynhyrchiol ac yn cymryd llai o gamau o'u cymharu â'r rhai sy'n arloesol, yn effeithlon ac yn ymdrechu i sicrhau arfer gorau a chynhyrchu bwyd yn effeithlon a cynaliadwy.

Rydym yn arbennig o bryderus nad oes fawr ddim ystyriaeth i denantiaid, porwyr, comin newydd-ddyfodiaid, share-farming, cytundebau ffermio contract neu fusnesau ffermio trawsffiniol yng nghanol y ddogfen.

.